

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-757 a P-05-765
Ein cyf/Our ref KW/07216/19

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

4 Hydref 2019

Annwyl Janet,

P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol a P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Medi yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y deisebau uchod.

Mae yna amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r hawliau a ddiogelir o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, y ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sy'n berthnasol i addoli ar y cyd. Mae fy swyddogion yn parhau i'w hystyried.

Yn naturiol, ar hyn o bryd fy mlaenoriaeth yw cwblhau'r gwaith ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd a chefnogi'r proffesiwn i'w weithredu'n effeithiol. Bydd yn rhaid i'r gwaith o ystyried cwestiwn addoli ar y cyd yn fanylach aros tan y bydd hyn wedi'i gwblhau.

Dros y misoedd i ddod, byddaf mewn cysylltiad â'r Pwyllgor yn rheolaidd i roi gwybod sut mae pethau'n symud yn eu blaen.

Yn gywir

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.